
# CORFF LLYWODRAETHU
# YSGOL CYNWYD SANT
# GOVERNING BODY

## ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI
## BLWYDDYN ACADEMAIDD 2024 / 2025

## *ANNUAL REPORT TO PARENTS*
## *ACADEMIC YEAR 2024 / 2025*


**01656 815615 admin@cynwydsant.pen-y-bont.cymru**




## Arwyddair a Gweledigaeth yr Ysgol

Mae'r Wordle yn arddangos y geirfa a chasglwyd gan holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn llunio'r Arwyddair / *The Wordle displays the vocabulary collected by all the school's stakeholders in order to draw up the Motto*

**Arwyddair - Motto**

**#teulucynwydsant**

**Cariad, Cymreictod, Cyrhaeddiad**

**#teuludysgu**

**Gweledigaeth – Vision**

Ein gweledigaeth yw i wreiddio sylfaeni cadarn, cynnig profiadau dilys ac annog chwilfrydedd at ddysgu mewn cymuned diogel, hapus a chynhwysol er mwyn galluogi ein dysgwyr i lwyddo ar hyd eu llwybr dysgu gydol oes fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o Gymru ac o'r Byd.

*Our vision is to create a solid foundation by offering authentic experiences and encouraging curiosity to learn in a safe, happy and inclusive community in order to enable our learners to succeed along their lifelong learning path as valuable members of society, of Wales and of the World.*

## Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein hadroddiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-2025 i chi.

### Neges gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr eleni ac adlewyrchu ar flwyddyn arall lwyddiannus ac ysbrydoledig yn Ysgol Cynwyd Sant.

Fel Corff Llywodraethol, ein prif bwrpas yw **cefnogi, herio a rhoi cyfeiriad i'r ysgol**, gan sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y gorau posibl o ran addysg a chyfleoedd. Mae ein llywodraethwyr yn wirfoddolwyr ymroddedig sy'n dod ag ystod eang o sgiliau a safbwyntiau i'r rôl, ac rydym yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud mewn partneriaeth â'r Pennaeth a'r tîm arweinyddol. Eleni, bu'n bleser croesawu **Mrs Jemma Williams** a'r **Cynghorydd Matthew Rowlands** i'r Corff Llywodraethol, gan gryfhau ein gallu ymhellach.

Mae'r llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant datblygiad proffesiynol i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae ein cyfrifoldebau'n cynnwys goruchwylio cyllid, staffio, y cwricwlwm ac, yn bwysig iawn, lles disgyblion – pob un yn hanfodol i sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn effeithlon ac yn cynnig gwerth ardderchog am arian. Rydym hefyd yn gyfrifol am y safle ac am sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn groesawgar i bawb.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon oedd ein hymweliad yn ystod tymor yr haf, lle cawsom gyfle i deithio o gwmpas yr ysgol a gweld y gwelliannau parhaus yn y tu mewn a'r tu allan. Mae'n amlwg bod y datblygiadau hyn yn canolbwyntio ar anghenion y disgyblion ac yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Pennaeth i welliant cyson.

Rydym yn parhau i edmygu ymroddiad yr ysgol i les disgyblion, drwy fentrau megis **ELSA** a **Thrive**, ac mae'n galonogol gweld bod y rhain yn cael eu cefnogi'n gadarn, yn ariannol ac o ran ethos. Mae cyfathrebu â theuluoedd hefyd yn parhau i fod yn gryf – o'r **Cylchlythyr wythnosol** fanwl a deniadol i'r defnydd gweithgar o dudalen **X yr ysgol**, mae'n amlwg bod dathlu llwyddiannau disgyblion a rhannu gwybodaeth yn flaenoriaeth.

Mae'r **Fforwm Rhieni** hefyd wedi parhau i ffynnu eleni, gan gynnig llwyfan pwysig ar gyfer trafodaeth a chydweithio rhwng arweinwyr yr ysgol a rhieni. Diolch o galon i bawb sy'n cymryd rhan, ac hefyd i **Gyfeillion Cynwyd Sant** am eu cefnogaeth gyson a'r digwyddiadau gwych a drefnir ganddynt er budd yr ysgol.

Ar ran y Corff Llywodraethol, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i **Mrs S.G.D. Richards**, y tîm arweinyddol, yr holl staff addysgu a staff cefnogol am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u brwdfrydedd. Ac yn olaf, diolch i chi – ein teuluoedd – am eich cefnogaeth barhaus. **Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod Ysgol Cynwyd Sant yn parhau i dyfu fel cymuned ddysgu fywiog, gynhwysol ac uchelgeisiol.**

Cofion gorau



**Huw Jenkins, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

***Message from the Chair of Governors***

*It is a pleasure to present this year's Governors' Report and to reflect on another successful and enriching year at Ysgol Cynwyd Sant.*

*As a Governing Body, our core purpose remains to* ***support, challenge and guide the school****, ensuring that every pupil receives the best possible education. Our governors are dedicated volunteers who bring a wide range of skills and perspectives to the role, and we are proud of the work they do in partnership with the Headteacher and senior leadership team. This year, we were delighted to welcome* ***Mrs Jemma Williams*** *and* ***Cllr. Matthew Rowlands*** *to the Governing Body, further strengthening our capacity.*

*Governors meet regularly throughout the year and undertake ongoing training to fulfil our responsibilities effectively. Our role includes overseeing finance, staffing, curriculum, and wellbeing – all crucial to ensuring that the school runs smoothly and delivers excellent value for money. We also take seriously our responsibility for the school premises and for ensuring a safe and welcoming environment for all.*

*A particular highlight this year was our summer term visit, where we toured the school and saw first-hand the ongoing improvements to both internal and external spaces. It's clear that these developments are pupil-focused and stem from the Headteacher's unwavering commitment to continuous improvement.*

*We continue to be impressed by the school's dedication to pupil wellbeing, through initiatives such as* ***ELSA*** *and* ***Thrive****, and it's heartening to see these supported in both funding and ethos. Communication with families also remains a strength – from the informative and engaging* ***weekly newsletters*** *to the active use of the school's* ***X account****, it's clear that celebrating pupils' achievements and sharing key messages is a priority.*

*This year has also seen the continued success of the* ***Parents' Forum****, providing an important platform for dialogue and collaboration between school leaders and parents. Our thanks go to those involved, and also to the ever-supportive* ***Cyfeillion Cynwyd Sant*** *whose tireless efforts contribute greatly to the life of the school.*

*On behalf of the Governing Body, I'd like to express sincere thanks to* ***Mrs S.G.D. Richards****, the leadership team, teaching and support staff for their professionalism, enthusiasm and care. And finally, thank you to you – our families – for your continued support and partnership.* ***Together, we can ensure that Ysgol Cynwyd Sant continues to thrive as a vibrant, inclusive and ambitious learning community****.*

*Kind Regards*

***Huw Jenkins, Chair of Governors***

## 1. MANYLION CYFARFODYDD / DETAILS OF MEETINGS

Ni chafodd y Corff Llywodraethu ddeiseb yn gofyn am gyfarfod ac felly ni chafodd cyfarfod ei gynnull.

*The Governing Body did not receive a petition requesting a meeting and therefore a meeting was not convened.*

## 2. ETHOL LLYWODRAETHWYR / *ELECTION OF GOVERNORS*

Mae 1 lle gwag ar gyfer Llywodraethwr Awdurdod Lleol – proses i gychwyn.

*There is currently 1 Local Authority vacancy – process to begin soon.*

## 3. DATA AR BERFFORMIAD / PERFORMANCE DATA

**Monitro Cynnydd Disgyblion / *Monitoring Pupil Progress***

Mae tîm yr ysgol yn parhau i fonitro cynnydd holl ddisgyblion Ysgol Cynwyd Sant. Mae'r corff llywodraethu yn parhau i fonitro data cynnydd mewnol trwy'r is-bwyllgor Cwricwlwm, Data a Safonau, ac mewn cysylltiad agos â'n Partner Gwella o Gonsortiwm Canolbarth y De, Mr Duan Evans. Mae llywodraethwyr cyswllt wedi'u penodi yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol i gefnogi'r broses fonitro.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i Mr Evans am ei gefnogaeth barhaus dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae ei fewnwelediad a'i arweiniad wedi bod yn werthfawr iawn i ddatblygiad parhaus Ysgol Cynwyd Sant. Dymunwn yn dda iddo wrth iddo symud ymlaen i gefnogi ysgolion o fewn Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful.

Rydym hefyd yn falch o groesawu Mr Iwan Ellis fel ein Partner Gwella Ysgol newydd, ac edrychwn ymlaen at gydweithio ag ef wrth i ni barhau i godi safonau a chefnogi lles ein disgyblion.

*The school team continues to monitor the progress of all pupils at Ysgol Cynwyd Sant. The governing body continues to review internal progress data through the Curriculum, Data and Standards sub-committee, and in close liaison with our Central South Consortium School Improvement Partner, Mr Duan Evans. Link governors have been appointed in line with the priorities outlined in the School Development Plan to support this monitoring process.*

*We would like to take this opportunity to sincerely thank Mr Evans for his continued support over the past four years. His insight and guidance have been invaluable to the ongoing development of Ysgol Cynwyd Sant. We wish him all the best as he moves on to support schools within Merthyr CBC.*

*We are also pleased to welcome Mr Iwan Ellis as our new School Improvement Partner and look forward to working with him as we continue to raise standards and support pupil wellbeing*

## 4. PRESENOLDEB / *ATTENDANCE*

Rydym yn annog rhieni/gofalwyr i weithio gyda'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol ac yn brydlon a chyfyngu ar wyliau yn ystod y tymor lle bo modd. Mae ein gweithdrefnau diogelu yn cynnwys cyswllt dyddiol ar gyfer y rhai nad ydynt yn mynychu'r ysgol a darperir cymorth lle bo'n briodol i wella presenoldeb a phrydlondeb, a all gynnwys cyfeirio at asiantaethau allanol os oes angen. Mae presenoldeb yn cael ei fonitro'n barhaus gan Staff Gweinyddol yr Ysgol, Pennaeth a'r Tîm Arwain mewn cysylltiad â'n Swyddog Lles Addysg a'n llywodraethwr cyswllt ar gyfer y maes hwn.

*We encourage parents/carers to work with the school to ensure that pupils attend school daily and punctually and limit holidays during term time where possible. Our safeguarding procedures include daily contact for non-attendees to school and support is provided where appropriate to improve attendance and punctuality, which may include referral to outside agencies if required. Attendance is continually monitored by the School Admin Staff, Headteacher and Leadership Team in liaison with our Education Welfare Officer and our link governor for this area.*

| Attendance data 2023-24 | % | Difference | Attendance data 2024-25 | % | | Difference 2023/24 - 2024/5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2023-24 attendance** | 93.2% | | **2024-25 attendance** | 94.01% | | +0.81% |
| **2023-24 eFSM attendance** | 90.31% | -2.89 | **2024-25 eFSM attendance** | 92.11% | -1.09 | +1.8% |
| **Boys attendance** | 93.75% | +0.81 | **Boys attendance** | 94.2% | | +0.7% |
| **Girls attendance** | 92.94% | | **Girls attendance** | 93.8% | -0.4 | +0.86% |
| **Authorised absences** | 4.44% | | **Authorised absences** | 5.41% | | +0.97% |
| **Unauthorised absences** | 2.28% | | **Unauthorised absences** | 0.57% | | -1.71% |

## 5. GWEITHGAREDDAU CHWARAEON AC ALLGYRSIOL / *SPORTING AND EXTRACURRICULAR ACTIVITIES*

Mae'r ysgol wedi chwarae rhan lawn a gweithredol mewn llawer o weithgareddau chwaraeon ac allgyrsiol yn y sir yn ogystal â chystadlaethau Cenedlaethol a'r rhai a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru. Mae gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon yn cael ei chyfleu'n eang gan yr ysgol; mae rhieni'n cael gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau a chyflawniadau ac maent yn gallu dilyn digwyddiadau ar X/Instagram lle y bo'n bosibl. Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch i staff a rhieni am eu cefnogaeth i ddigwyddiadau allgyrsiol eleni ac fel ysgol rydym yn parhau i ddathlu nifer o lwyddiannau yn y maes hwn.

*The school has taken a full and active part in many sporting and extracurricular activities within the county along with National competitions and those organised by Urdd Gobaith Cymru. Information about extracurricular and sporting activities are widely communicated by the school; parents are regularly updated with events and achievements and are able to follow events on X/Instagram where possible. Governors thank staff and parents for their support of*

*extracurricular events this year and as a school we continue to celebrate many successes in this area.*

## 6. MANYLION AELODAETH O'R CORFF LLYWODRAETHU / GOVERNING BODY MEMBERSHIP DETAILS

Cadeirydd y Corff Llywodraethu yw Mr Huw Jenkins d/o Ysgol Cynwyd Sant. Clerc y Corff Llywodraethu yw Mrs Simone Delaney d/o Ysgol Cynwyd Sant.

*The Chair of the Governing Body is Mr Huw Jenkins c/o Ysgol Cynwyd Sant. The Clerk to the Governing Body is Mrs Simone Delaney c/o Ysgol Cynwyd Sant.*

| **AALl / LA** |
|---|
| Vacancy |
| Mrs Rh. Sterio |
| Mrs C. Seldon |
| **Cymuned / Community** |
| Mr T. Kadri |
| Mr H. L. Jenkins |
| Mr R. Evans |
| Cllr M. Rowlands |
| **Parent** |
| Mrs Rh. Owen |
| Mr K. Roberts |
| Mrs L. Poole |
| Dr J. Williams |
| **Support Staff** |
| Mrs S. Clement |
| **Teacher** |
| Mrs R. Hawkins |
| **Headteacher** |
| Mrs S.G.D. Richards |

7. **DATGANIAD ARIANNOL 2024- 2025 FINANCIAL STATEMENT**

Ni wnaed unrhyw hawliadau am wariant ar deithio neu gynhaliaeth gan y Corff Llywodraethu yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025.

*No claims for travel or subsistence expenditure were made by the Governing Body during the 2024-2025 academic year.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **FINANCIAL STATEMENT 2024/25** | | | | |
| | SCHOOL: | **YGG CYNWYD SANT** | | |
| ***EXPENDITURE*** | | | | £ |
| | **EMPLOYEES** | | | |
| | | TEACHERS | | 906349 |
| | | SCHOOL SUPPORT WORKERS | | 48041 |
| | | CLERKS AND CLASSROOM SUPPORT | | 371137 |
| | | AGENCY STAFF | | 11374 |
| | | SICKNESS AND MATERNITY INSURANCE | | 36099 |
| | | STAFF TRAINING | | 3042 |
| | | OTHER COSTS eg POLICE CHECKS | | 0 |
| | | | | **1376042** |
| | **PREMISES AND RELATED COSTS** | | | |
| | | GROUNDS MAINTENANCE | | 2662 |
| | | REPAIRS, ETC TO BUILDINGS | | 17186 |
| | | ENERGY | | 37220 |
| | | RATES | | 18252 |
| | | WATER SERVICES | | 1662 |
| | | FIXTURES AND FITTINGS | | 167 |
| | | CLEANING AND DOMESTIC SERVICES | | 40855 |
| | | | | **118004** |
| | **TRANSPORT AND RELATED COSTS** | | | |
| | | USE OF DISTRICT FACILITIES | | 2625 |
| | | VEHICLE COSTS | | 0 |
| | | CAR ALLOWANCES/STAFF TRAVEL | | 196 |
| | | | | **2821** |
| | **SUPPLIES AND SERVICES** | | | |
| | | CAPITATION (TEACHING MATERIALS) | | 35602 |
| | | SCHOOL MEAL COSTS | | 27964 |
| | | ICT RELATED COSTS | | 14417 |
| | | PRINTING, STATIONERY ETC | | 720 |
| | | TELEPHONES | | 87 |
| | | SERVICE LEVEL AGREEMENT | | 28537 |
| | | TRADE WASTE | | 2096 |
| | | LEASING | | 5819 |
| | | MISCELLANEOUS EXPENDITURE | | 300 |
| | | | | **115542** |
| ***INCOME*** | | | | |
| | WELSH GOVERNMENT GRANTS | | | 347807 |
| | OTHER SCHOOL GRANTS | | | 17041 |
| | SCHOOL MEAL INCOME | | | 2621 |
| | INSURANCE CLAIM | | | 1645 |
| | | | | **369114** |
| ***NET SCHOOL EXPENDITURE*** | | | **1243295** | |

**CYLLID CRONFA YR YSGOL – *PRIVATE SCHOOL FUND***

1.1 Mae Cronfa Breifat Ysgol i'w chreu lle bynnag y cesglir arian gan ddisgyblion, neu ffynonellau eraill, i'w wario er budd cyffredinol y disgyblion neu'r ysgol gyfan. Yn aml fe'i gelwir yn 'gronfa answyddogol' yn hytrach na 'chronfa swyddogol' fel cyllideb ddirprwyedig yr ysgol, a ariennir o adnoddau'r Cyngor.

1.2 Rhaid cynnal holl gronfeydd answyddogol ysgolion yn gyfan gwbl ar wahân i gronfeydd swyddogol. Rhaid gweinyddu cronfeydd answyddogol yn unol â safonau gofynnol sylfaenol penodol er mwyn diogelu buddiannau'r rhai sydd wedi darparu adnoddau ar gyfer cronfeydd answyddogol, ac i ddiogelu buddiannau staff sy'n gweinyddu'r cronfeydd. Rhaid i weithwyr ysgol sy'n ymwneud â gweinyddu cronfa answyddogol gydymffurfio â'r safonau hyn.

***Mae Cronfa Sant Ysgol Cynwyd Sant i'w defnyddio i hyrwyddo addysg disgyblion yn yr ysgol, trwy ariannu gweithgareddau nad ydynt fel arfer yn cael eu hariannu gan arian cyllid swyddogol, neu trwy sybsideiddio gweithgareddau sydd fel rheol yn dod o fewn cylch gwaith cronfeydd ariannol.***

**Balans cyfredol - £15,469.73 – yn cynnwys taliadau Llangrannog.** *(18-12-25)*

1.1 *A School Private Fund is to be created wherever money is collected from pupils, or other sources, to be spent for the general benefit of the pupils or the school as a whole. It is often termed an 'unofficial fund' as opposed to an 'official fund' such as the school's delegated budget, which is funded from Council resources.*

*1.2 All school unofficial funds must be maintained entirely separately from official funds. Unofficial funds must be administered in accordance with certain basic minimum standards in order to safeguard the interests of those who have provided resources for unofficial funds, and to safeguard the interests of staff administering the funds. School employees who are involved in unofficial fund administration must comply with these standards.*

***Ysgol Cynwyd Sant Fund is to be used to further the education of pupils at the school, by financing activities not normally funded by official capitation monies, or by subsidising activities which normally fall within the remit of capitation funds.***

**Current balance - £15,469.73 - *now includes Llangrannog payments. (18-12-25)***

## *8.* CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL / *COMMUNITY LINKS*

Mae gan yr ysgol gysylltiadau ag amryw fudiadau a sefydliadau sy'n cynnwys:

Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyngor Cymuned Maesteg, Cystadlaethau Traws Gwlad, Athletau, Rygbi a Phêl-rwyd Ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, elusennau amrywiol, Y Gwasanaethau Cymdeithasol, Eco Sgolion, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, Boom Cymru, Nyrs Ysgol, Hyfforddiant Beicio, Cwmni Theatr mewn Cymeriad, Principality, Coleg Pen-y-bont, Caerau Men Shed, Rhys Paddarn Orielodl, Ryan Davies artist

lleol, Banc Bwyd Maesteg Cyngor BCBC, NatWest Moneysense, FairShare – Big Bocs Bwyd, Sbectrwm Cymru, Chi Education, Adam yn yr Ardd, The Wood Yard, Parc Lles Maesteg, Parc Gwledig Margam, Cadw Cymru'n Daclus, Siderwise.

.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein cysylltiadau cymunedol ac yn gwahodd rhieni/gwarcheidwaid i gysylltu â ni os oes ganddynt gysylltiadau â grwpiau cymunedol a fyddai â diddordeb mewn gweithio gyda ni.

*The school has many links with various organisations which include:*

*Menter Bro Ogwr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, South Wales Police, South Wales Fire and Rescue Service, Maesteg Community Council, Bridgend Schools Cross Country, Athletics, Rugby and Netball Competitions, Bridgend Library, various charities, Social Services, Eco Schools, BBC, Glamorgan Gazette, S4C, Boom Cymru, School Nurse, Cycle Training, Theatr Mewn Cymeriad Theatre, Principality, Bridgend College, Caerau Men Shed, Rhys Paddarn Orielodl, Ryan Davies local artist, Maesteg Foodbank, BCBC CBC , Nat West Moneysense, FairShare – Big Bocs Bwyd,* Sbectrwm Cymru, Chi Education, Adam yn yr Ardd, The Wood Yard, Maesteg Welfare Park, Margam Country Park, Keep Wales Tidy, Siderwise.

*We are continuing to develop our community links and invite parents/carers to contact us if they have links with community groups who would be interested in working with us.*

## *9.* TARGEDAU AR GYFER GWELLA 2025– 2026 / *TARGETS FOR IMPROVEMENT 2025 – 2026*

Caiff ein targedau ar gyfer gwella ym mlwyddyn academaidd 2025-2026 eu rhestru isod. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn mae'r rhain fwy na heb wedi cael eu cyrraedd ac yn parhau i wreiddio drwy'r ysgol fodd bynnag, oherwydd natur ein hinsawdd mewn ymateb i'r pandemig, mae rhai targedau yn barhaus h.y. *i ganolbwyntio ar wella safonau llythrennedd ein disgyblion*. Hoffem ddiolch i arweinwyr yr ysgol sydd â chyfrifoldeb am y meysydd hyn ac i holl staff yr ysgol am eu hymrwymiad i gyflawni'r llwyddiant hwn.

*Our targets for improvement for the academic year 2025-2026 are listed below. At the time of publication these have been largely met and continue to be embedded throughout the school however due to the nature of our climate in response to the pandemic some targets are ongoing i.e. to focus upon improving the literacy standards of our pupils. We thank school leaders with responsibility for these areas and all school staff for their commitment to achieving this success.*

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1** ***Priority 1*** | **Llythrennedd /** *Literacy* Continue to improve attainment and reading progress across the stages of progress including the introduction of Rhydywaun's '**Dim ond Darllen** / *Just Read'* strategy (Team Llan' Cluster approach). |
| **Blaenoriaeth 2** ***Priority 2*** | **Maths a Rhifedd** / *Maths and Numeracy* Continue to improve achievement and progress in mathematics across the progression steps. |
| **Blaenoriaeth 3** ***Priority 3*** | **Wellbeing - Community focused school** To further develop as a Community-Focused School, strengthening partnerships and improving support for learners and their families. |

| | |
|---|---|
| **Is-flaenoriaethau** ***Sub-priorities*** | • **School Curriculum** – Continue to reform, Leadership Team to manage<br>• **Governing Body self-evaluation** - Developing the Governors' Role<br>• **Teaching and Learning in the Outdoors** - Developing the frequency use External Areas |

### *10.* ADOLYGIAD O BOLISÏAU A STRATEGAETHAU / *REVIEW OF POLICIES AND STRATEGIES*

Mae'r Corff Llywodraethu, trwy ei strwythur pwyllgorau, yn bwriadu ail gydio i gynnal adolygiadau blynyddol o bolisïau'r ysgol. Yn ystod cyfarfodydd tymhorol y Corff Llywodraethu Llawn, mae'r Corff Llywodraethu'n trafod ac yn mabwysiadu, fel y bo'n briodol, bolisïau newydd a diwygiedig a gyflwynwyd ger bron gan yr Awdurdod Lleol. Mae strategaethau'r ysgol yn cael eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr ynghyd ag aelodau eraill yn cydweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Tîm Arwain. Mae'r Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei wahodd yn flynyddol i gyflwyniad ar y Cynllun Datblygu Ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

*The Governing Body, through its committee structure, will plan to reinstate (when possible) annual reviews of school policies. During the termly Full Governing Body meetings, the Governing Body discusses and adopts, as appropriate, new and reviewed policies brought forward by the Local Authority. School strategies are discussed and reviewed on a regular basis. The Chair of Governors along with other members works closely with the Headteacher and the Management Team. The Full Governing Body is invited annually to a presentation of the new School Development Plan for the forthcoming year.*

### 11. DYDDIADAU TYMHORAU / *TERM DATES*

| | **Hydref** ***Autumn* 2025** | **Gwanwyn** ***Spring* 2026** | **Haf** ***Summer* 2026** |
|---|---|---|---|
| **Dechrau** ***Begins*** | **01.09.25** | **05.01.26** | **13.04.26** |
| **Hanner Tymor** ***Half term*** | **27.10.25 31.10.25** | **16.02.26 20.02.26** | **25.05.26 29.05.26** |
| **Diwedd** ***Ends*** | **19.12.25** | **27.03.26** | **20.07.26** |

## Diwrnodau HMS / *INSET Days*

Yn ystod y Flwyddyn Academaidd, dyrennir hyd at 6 diwrnod HMS i ysgolion eu defnyddio yn ôl eu disgresiwn at ddibenion hyfforddi a datblygu staff. Eleni, cynhelir y rhain ar;

*During the Academic Year, schools are allocated up to 6 INSET days at their discretion for staff training and development purposes.*

*This year, these will be held on;*

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| 01-09-25 | 24-10-25 | 27-02-26 | 01-05-26 | 12-06-26 | 20-07-26 |

### *12.* PROSBECTWS YR YSGOL / *SCHOOL PROSPECTUS*

Mae prosbectws yr ysgol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i ailysgrifennu i adlewyrchu newidiadau o ran Aelodau'r Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae ar gael o'r ysgol neu ar wefan yr ysgol.

*The school prospectus is updated annually and rewritten to reflect changes in Governors and Staff members along with any new legislation. It is available from school or on the school website*.

### 13. Y CWRICWLWM A DULLIAU ADDYSGU / *CURRICULUM AND TEACHING METHODS*

Gwelwch **'Cwricwlwm Cynwyd Sant Curriculum'** sydd ar wefan yr Ysgol.

*Please see "***Cwricwlwm Cynwyd Sant Curriculum'** *which is on the school website.*



Ein gweledigaeth yw i wreiddio sylfaeni cadarn, cynnig profiadau dilys ac annog chwilfrydedd at ddysgu mewn cymuned diogel, hapus a chynhwysol er mwyn galluogi ein dysgwyr i lwyddo ar hyd eu llwybr dysgu gydol oes fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o Gymru ac o'r Byd.

**Amcanion**

**Cariad**
- Darparu amgylchedd diogel, cefnogol ac hapus gydag awyrgylch croesawgar.
- Hyrwyddo cariad tuag at yr iaith Gymraeg
- Meithrin perthynas cryf trwy gydweithio gyda'n holl rhanddeilaid er lles y dysgwyr
- Magu ethos o feddylfryd twf ac hyrwyddo lles bersonol

**Cymreictod**
- Hyrwyddo'r dysgwyr i ymfalchio yn eu Cymreictod
- Magu hyder a chyfrifoldeb y disgyblion i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r Ysgol
- Annog ein disgyblion i werthfawrogi eu diwylliant a'u hanes

**Cyrhaeddiad**
- Gosod sylfaen cadarn ar gyfer dysgu gydol oes
- Codi safonau trwy ddarparu cwricwlwm eang llawn dysgu cyfoethog
- Darparu cyfleoedd cyfartal er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd eu llawn potensial
- Dathlu doniau unigolion
- Meithrin dinasyddion gweithredol a beirniadol.
- Paratoi dysgwyr i fod yn aelodau gwerthfawr a chyfrifol o'r cymdeithas.

*Our vision is to embed sound foundations, offer authentic experiences and encourage curiosity to learn in a safe, happy and inclusive community to enable our learners to succeed along their lifelong learning path as valued members of society, Wales and of the World.*

***Objectives***

***Cariad / Love***
- *Provide a safe, supportive and happy environment with a welcoming atmosphere.*
- *Promote a love of the Welsh language*
- *Build strong relationships by working with all our stakeholders for the benefit of learners*
- *Foster an ethos of a growth mindset and promote personal wellbeing*

***Cymreictod / Welsh Heritage***
- *Promote learners to take pride in their Welsh heritage*
- *Build pupils' confidence and responsibility to use the language beyond School*
- *Encourage our pupils value their culture and history*

***Achievement***
- *Set a firm foundation for lifelong learning*
- *Raise standards by providing a broad curriculum rich in learning*
- *Providing equal opportunities to ensure that all pupils reach their full potential*
- *Celebrating individuals' talents*
- *Foster active and critical citizens.*
- *Prepare learners to be valued and responsible members of society.*

### *14.* CATEGORI IAITH A DEFNYDD O'R GYMRAEG / *LANGUAGE CATEGORY AND USE OF THE WELSH LANGUAGE*

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Cynwyd Sant. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr Adran Iau addysgir pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg heblaw am Saesneg, a gyflwynir ym Mlwyddyn 3.

Mae Ysgol Cynwyd Sant yn rhoi safon iaith ragorol i'r disgyblion o ran y Gymraeg ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o destunau a gwmpesir gan y "Cwricwlwm Cymreig" a'r "Siarter Iaith".

*Ysgol Cynwyd Sant is a Welsh medium school. The Welsh language is the official language of the school. In Foundation Phase all subjects are taught through the medium of Welsh. In the Junior Department subjects are taught through the medium of Welsh apart from English, which is introduced in Year 3.*

*Ysgol Cynwyd Sant provides pupils with an excellent standard of Welsh and ensures that all pupils are able to access a wide variety of topics covered by the "Curriculum Cymreig" and 'Y Siarter Iaith'.*

### *15.* CYFLEUSTERAU TOILEDAU / *TOILET FACILITIES*

| ***Lleoliad / Location*** | ***Nifer Tai Bach / Number of Toilets*** |
|---|---|
| Dosbarth Meithrin/Nursery Class<br><br>Dosbarth Derbyn-Meithrin / Reception-Nursery Class | 3 (Mixed/Cymysg) |
| Dosbarth Derbyn & Bl.1 / *Reception & Yr.1 Class*<br><br>Blwyddyn 1 & 2 / *Years 1 & 2* | 4 merched / 4 girls<br><br>*3 bechgyn & 'Urinal' / 3 boys' toilets & urinal* |
| Blwyddyn 3,4,5 & 6 / *Years 3,4,5 & 6* | 5 merched / 5 girls<br><br>*3* bechgyn & 'Urinal' */ 3 boys & double urinal* |
| Ty bach - Anabledd | 1 |

Ceir darpariaeth ddigonol o ran cyfleusterau toiledau ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2). Ceir cyfleusterau ar wahân ar gyfer bechgyn a merched ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae'r holl gyfleusterau ar gyfer yr Adran Dysgu Sylfaen wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol.
Er hyn, mae'r Sir wedi cydnabod Medi 2020 y bydde ychwanegu at y nifer o doiledau Meithrin/Derbyn yn fanteisiol.

Mae nifer y toiledau sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion yn yr Adran Iau. Ceir cyfleusterau digonol, ar wahân ar gyfer bechgyn a merched yn yr Adran Iau. Mae'r cyfleusterau wedi'u lleoli ym mhrif adeilad yr ysgol.

Mae'r plant yn dda am edrych ar ôl ardaloedd yr holl doiledau ar y cyfan. Mae'r toiledau'n cael eu glanhau'n ddyddiol gan y Gwasanaethau Glanhau Corfforaethol a gyflogir yn yr ysgol. Mae unrhyw faterion gweithredol neu lanhau yn ystod y diwrnod ysgol yn cael sylw prydlon gan staff yr ysgol. Mae'r Pennaeth a Goruchwyliwr y Safle yn cynllunio prosiect i ailaddurno toiledau 2025-26.

*There is adequate provision of toilet facilities for pupils in the Foundation Phase (Nursery, Reception, Years 1 and 2). There are separate facilities for boys and girls in Years 1 and 2. All the facilities for Learning Foundation dept are located within the main school building. However, the County has acknowledged, September 2020 that increasing the number of Nursery / Reception toilets would be beneficial.*

*The number of toilets available is adequate for the number of pupils in the Junior Department. There are separate, adequate facilities for boys and girls in the Junior Department. The facilities are located within the main school building.*

*All toilet areas are generally well looked after by the pupils. The toilets are cleaned daily by the Corporate Cleaning Services employed by the school. Any operational or cleaning issues during the school day are addressed promptly by school staff. Headteacher and Site Supervisor are planning a project to redecorate toilets 2025-26.*

## *16.* BWYTA'N IACH / *HEALTHY EATING*

Daeth y "Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion" i rym ar ddydd Llun 2 Medi 2013. Mae'r Ysgol wedi cael tystysgrif gan yr Awdurdod yn datgan bod y fwydlen a ddarperir gan Wasanaethau Arlwyo'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru "Blas am Oes".

Cafodd **Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr** wahoddiad gan y **Pwyllgor Iechyd a Lles** i ymuno â'r disgyblion am ginio ysgol. Roedd pwrpas yr ymweliad yn ddeublyg: i arsylwi ar gydbwysedd maethol y prydau ysgol a ddarperir, ac i adolygu a oedd disgyblion a'u teuluoedd yn cefnogi **Menter Ysgolion Iach** drwy ddarparu bocsys bwyd iach. Rhannwyd adborth gan aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Lles gyda chymuned yr ysgol drwy ein Cylchlythyr Wythnosol.

*The "Healthy Eating in Schools Measure" came into force on Monday 2nd September 2013. The School has received a certificate from the Authority stating that the menu provided by the Authority's Catering Services is fully compliant with the standards set out in the Welsh Government document "Appetite for Life".*

*The **Chair and Vice Chair of Governors** were invited by the **Health & Wellbeing Committee** to join pupils for a school lunch. The purpose of the visit was twofold: to observe the nutritional balance of the school meals provided, and to review whether pupils and their families were supporting the **Healthy Schools initiative** through the provision of healthy lunchboxes. Feedback from members of the Health & Wellbeing Committee was shared with our school community via our Weekly Newsletter.*

**17. BIG BOCS BWYD**

Mae’r Big Bocs Bwyd yn brosiect gan Lywodraeth Cymru sydd wedi’i gyflwyno i helpu tlodi mewn cymunedau lleol, lleihau gwastraff bwyd a darparu cyfleoedd dysgu ymarferol i ddisgyblion. Bydd y bwyd a’r deunydd ymolchi a ddarperir yn cael eu rhoi’n bennaf gan archfarchnadoedd sy’n eu helpu i leihau faint o wastraff bwyd y maent yn ei gynhyrchu.

Galwch mewn a llenwch fag - mae croeso i bawb!

*The Big Bocs Bwyd is a Welsh Government initiative which has been introduced to help poverty in local communities, reduce food waste and to provide hands on learning opportunities for pupils. The Big Bocs Bwyd works on a 'Pay as you Feel' basis. The food and toiletries provided will mainly be donated from supermarkets which helps them reduce the amount of food waste they produce.*

*Please call in and fill a bag - everyone welcome!*



## 18. CYFEILLION CYNWYD SANT – PTA

Diolch i **Gyfeillion Cynwyd Sant** eto eleni. Mae nifer o ddigwyddiadau codi arian wedi bod i godi arian i'n Hysgol a'n disgyblion, megis disgos, ffair haf, diwrnodau codi arian, raffl ayb. Y llynedd, cyfrannodd **Cyfeillion** at brynu;

- Citiau Rygbi Newydd i'r disgyblion
- Llyfrau ar gyfer Peiriant Gwerthu Llyfrau'r Ysgol
- Ffyrnau coginio cludadwy
- Troli ffwrn goginio
- Twnnel Polly
- Adnoddau i gefnogi datblygiad cyflenwadau Gardd Flaen yr Ysgol – leinin, pridd, rhisgl
- Offer chwarae Iard 2
- Cacennau bore Coffi Macmillan
- Adnoddau gwnïo

Roedd Cyfeillion hefyd yn allweddol wrth wneud cais am grant gan ASDA i gefnogi ein Big Bocs Bwyd a rheoli agoriad pythefnosol y siop.

Ar wahân i'r rhoddion ariannol, mae **Cyfeillion** yn gaffaeliad mawr i'r ysgol – mae'r aelodau yn mynychu ac yn cefnogi pob digwyddiad ysgol ac yn cysegru amser ac ymdrech er lles yr ysgol ac am hynny rydym yn hynod ddiolchgar a ffodus.

Edrychwn ymlaen at y llu o weithgareddau sydd ar y gweill ar gyfer eleni.

*Thank you to **Cyfeillion Cynwyd Sant** again this year. There have been several fund-raising events to raise money for our School and pupils, such as discos, summer fete, fund-raising days, raffle etc. Last year, **Cyfeillion** contributed to purchase;*

- New Rugby kits for the pupils
- Books for the School Book Vending Machine
- Portable cooking ovens
- Cooking oven trolley
- Pollytunnel
- Resources to support the development of the School Front Garden supplies – liner, soil, bark
- Yard 2 play equipment
- Macmillan Coffee morning cakes
- Sewing resources

*Cyfeillion were also instrumental in applying for a grant from ASDA to support our **Big Bocs Bwyd and manage the fortnightly opening of the shop.***

*Aside from the financial donations, **Cyfeillion** are a huge asset to the school – the members attend and support every school event and dedicate time and effort for the good of the school*

*and for that we are very grateful and fortunate.  We look forward to the many activities planned for this year.*

